

Priodasau yn y Coleg

Taith ddigidol



Croeso i Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru

Mae Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru wedi'i leoli ar dir Castell Caerdydd ac yn ffinio ag un o barciau mwyaf a phrydferthaf y DU.

Mae ein dau adeilad unigryw yn llunio un o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd yng Nghaerdydd ar gyfer eich diwrnod arbennig.

Rydym yn cynnig profiad cwbl unigryw a, gyda chymorth ein Swyddog Priodasau penodol a Rheolwr Arlwyo hynod brofiadol, gallwn deilwra eich diwrnod arbennig yn unol â'ch dymuniadau.

Mae gennym nifer o ystafelloedd, pob un â'i harddull a'i chymeriad ei hun fel y gallwch roi bywyd i'ch gweledigaeth - boed hi'n briodas ffres ac ysgafn yn y gwanwyn, yn barti haf mawr, seremoni glyd yn yr hydref neu'n ddatliad arbennig dros gyfnod y Nadolig.

Beth am gychwyn ar y daith...

Seremonïau

Rydym yn cynnal seremonïau yn y prif adeilad ac yn ein Canolfan Anthony Hopkins fel y gallwn gynnig dau leoliad sydd ag arddull cwbl wahanol iddynt.

Neuadd Gyngerdd Dora Stoutzker

Mae ein neuadd gyngerdd o'r radd flaenaf yn syfrdanol o hardd a modern a gall ddal hyd at 200 o westeion.

Mae'r gofod hwn yn urddasol a thrawiadol fel y gwelwch. Gellir hefyd defnyddio nifer o wahanol gefndiroedd yno, yn amrywio o oleuadau yn codi o'r llawr a goleuadau bach i blanhigion, blodau a baneri. Rydym wrth ein bodd gyda'ch syniadau creadigol chi.

Rydym yn cynnig ystod o ddewisiadau o ran goleuo am gost ychwanegol a cheir rhagor o wybodaeth am hyn yn ddiweddarach ar y daith.

Mae croeso i chi ddod â'ch addurniadau eich hun y gallwn eu gosod ar eich rhan, fel nad oes angen i chi godi bys ar eich diwrnod arbennig





Gellir newid ein goleuadau o'r llawr i fod yn unrhyw liw o'ch dewis.

*tâl ychwanegol, cyfeiriwch at y rhestr brisiau



Wal o oleuadau bach.

*tâl ychwanegol, cyfeiriwch at y rhestr brisiau

Engbreiffiau o syniadau addurno a gyflwynwyd gan gyplau...



Gellir ail-leoli ac arddangos eich baneri, planhigion, bwâu blodau a threfniannau blodau yn rhywle arall yn ddiweddarach ar y diwrnod.

Rydym yn edrych ymlaen i glywed eich syniadau!



Bydd y briodferch yn dod i
mewn i lawr y llwybr ochr
sy'n arwain i'r llwyfan.

Gellir defnyddio'r piano
neu gall fod yno i'w
arddangos.

Os hoffech logi un o'n
cerddorion, ceir rhagor o
wybodaeth am hynny'n
ddiweddarach yn ein
Cynllun 'Llogi Perfformiwr'.
Mae cerddoriaeth fyw yn y
gorffennol wedi cynnwys
corau uwchben a thu ôl i'r
llwyfan gan greu effaith
syfrdanol.



albertpalmer
PHOTOGRAPHY



Sally Uphill Photography





Theatr Richard Burton

Mae Theatr Richard Burton yn lleoliad delfrydol ar gyfer ein cyplau theatraidd. Gyda 180 o seddi, gall eich holl westeion wyllo mewn amgylchedd dramatig.

Gallwch ddewis creu eich golygfa eich hun ar y llwyfan - yn amrywio o seremoni syml a chlyd gyda golau isel i ddigwyddiad wedi'i lwyfannau'n llawn gydag effeithiau goleuo trawiadol.

Gellir defnyddio'r lleoliad hwn hefyd ar gyfer eich derbyniad diodydd, gyda lle i hyd at 60 o westeion ar y llwyfan.





Wal o oleuadau bach

*tâl ychwanegol, cyfeiriwch at y rhestr brisiau



Gallwch gael profiad o fod ar Broadway o dan y llifoleuadau gan roi ffordd unigryw i briodi. Ar gyfer derbyniad diodydd, gall ein byrddau 'poseur' wedi'u gosod yma a thraw weddnewid y llwyfan.



Oriel Weston

Mae'r ystafell hardd hon wedi'i lleoli yn ein Canolfan Anthony Hopkins. Os ydych yn chwilio am gymeriad, dyma'r ystafell ddelfrydol ar gyfer eich seremoni.

Gellir darparu ar gyfer 70 o westeion yn y lleoliad hanesyddol hwn - stablau gwreiddiol Castell Caerdydd. Mae paentiadau clasurol, drysau bwa urddasol a llieiniau amlwg yn golygu nad oes angen ei haddurno gan ei bod eisoes yn drawiadol.

Gellir defnyddio'r ystafell hon hefyd ar gyfer eich derbyniad diodydd.





**Gellir trefnu Oriel
Weston mewn gwahanol ffyrdd fel ei bod yn addas i chi
a nifer eich gwesteion.**



Ystafell Corus


Mae'r ystafell hon yn debyg iawn i Oriel Weston o ran ei harddull ac mae ychydig yn llai. Mae ei grisiau troellog hardd yn nodwedd drawiadol ar gyfer eich lluniau. Mae'r ystafell hon yn dal 50 o bobl.

Mae llawer o hanes i'r Corus felly, yn union fel Oriel Weston, mae'n hardd fel ag y mae hi, er bod croeso i chi ei haddurno er mwyn ei gwneud yn unigryw i chi.

Gellir defnyddio'r ystafell hon hefyd ar gyfer eich derbyniad diodydd.







Gellir newid trefn Ystafell Corus yn dibynnu ar nifer eich gwesteion.

Derbyniad Diodydd

Mae gennym amrywiaeth o leoliadau i chi ddewis ohonynt, dan do ac yn ar awyr agored i gyd-fynd â'r tymhorau.

Teras awyr agored ac atriwm gwydr

Mae'r gofodau hyn yn creu lleoliad gwirioneddol wych ar gyfer eich derbyniad diodydd.

Mae'r atriwm gwydr uchder trillawr a theras awyr agored yn y prif Goleg yn edrych dros Barc Bute, sydd wedi'i restru'n Gradd I, a Chastell Caerdydd.

Mae llawer o ofod a chyfle i chi greu eich gweledigaeth eich hun (os dyna'ch dymuniad!)







Cwrt Canolfan Anthony Hopkins

Mae'r cwrt awyr agored hwn yn lleoliad gwych ar gyfer eich derbyniad diodydd ar ddiwrnod braf, gyda'r parc ond tafliad carreg i ffwrdd. Y bensaerniaeth wych yw gwaith cerrig gwreiddiol adeilad a oedd unwaith yn stablau Castell Caerdydd.

Ar gyfer dyddiau gwlyb mae'r Weston a'r Corus nesaf at y cwrt.

Gallwch ddod â'ch gwin neu'ch diodydd pefriog eich hun ac mae ein tâl gweini yn cynnwys llogi gwydrau, staff glanhau, staff i weini a chlrrio.





Taith y Parc

Mae taith y parc yn daith ddewisol y gallwch ei gwneud yn ystod eich diwrnod.

Mae'n mynd â chi o Goedlan y Castell y tu ôl i'n Canolfan Anthony Hopkins i'ch gwledd briodas a derbyniad nos yn yr atriwm.

Taith 15 munud ar droed yw hon - yn dibynnu ar faint o luniau y byddwch yn eu tynnu yn yr amgylchedd godidog



Dyma rai enghreifftiau...

Rydym yn hyblyg iawn ynglŷn â
sut rydych yn cynllunio eich
diwrnod ac yn croesawu
awgrymiadau newydd.

Fodd bynnag, rydym yma bob
amser os nad ydych yn siŵr.



Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag unrhyw un o'ch gwesteion yn methu gallu mwynhau taith y parc, bydd ein Swyddog Priodasau yn eu cynorthwyo i gymryd llwybr byrrach fell y gallant fod yno i'ch gweld pan fyddwch yn cyrraedd.

Ar hyd y ffordd mae cyfle hyfryd i'r ddau ohonoch rannu munudau preifat tra byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod eich gwesteion yn mwynhau'r prosecco a'r canapés



Taith y Bont

Dywedir yn aml bod y daith dros bont yr atriwm ymhlith hoff rannau'r dydd (heblaw am briodi wrth gwrs!) Gall hyn ddilyn taith y parc yn naturiol fel y gallwch gyrraedd mewn steil fel pâr priod - bydd ein Swyddog Priodasau yn dangos sut i wneud hynny.

Unwaith bod eich holl westeion yn eu seddi, gall eich gwas priodas eich cyhoeddi wrth i chi gerdded ar draws y bont a'ch gwesteion yn eich cymeradwy - eiliad hapus arall.



Gellir chwarae eich dewis o gerddoriaeth, eich hoff gân efallai, wrth i chi gyrraedd.

Wedi hyn byddwch yn mynd yn syth i mewn i'ch gwledd briodas a'r areithiau, oni bai eich bod am wneud pethau'n wahanol.

Ceir ail gyfle i groesi'r bont fel yr arweiniad perffaith i'r ddawns gyntaf.

Gellir cynllunio hyn i gyd yn ystod eich cyfarfodydd gyda'n Swyddog Priodasau.



Gwledd Briodas

Mae gennym amrywiaeth o ddewisiadau o ran trefn eistedd ar gyfer eich gwledd briodas

Trefn byrddau crwn

Byrddau mawr crwn - y dewis mwyaf poblogaidd.

Trefn siâp 'U'

Byrddau wedi'u trefnu mewn siâp 'U' gyda'r dewis i gael rhywbeth i'w arddangos yn y canol, fel eich cacen!



Trefn byrddau teulu

Ffordd fwy hamddenol o fwyta gyda byrddau mewn rhesi a chi a'ch gwesteion yn eistedd gyferbyn â'ch gilydd.

Prif fwrdd

Prif fwrdd i chi, eich teulu agosaf, morwynion a gwas/gweision.



Gall ein tîm arlwyo mewnol a argymhellir yn fawr ddarparu ar gyfer eich holl ofynion dietegol megis bwyd llysieuol, figan, heb glwten a Halal.

Mae ein bwydlenni wedi'u cynllunio fel y gallwch ddewis o bob cwrs i greu bwydlen sy'n bersonol i chi.

Ni allwn ganiatáu arlwywyr allanol.





Derbyniad hwyr yn yr atriwm

Dyma lle cynhelir eich derbyniad hwyr.

Gallwn ddarparu ar gyfer hyd at 300 o westeion heb seddi ffurfiol yn yr atriwm gyda'i far cyfagos wedi'i drwyddedu tan 1.30am.

Mae gennym ddau aelod o staff drws cyfeillgar a chroesawgar a fydd yn gwneud yn siŵr na fydd unrhyw un na wahoddwyd yn ymuno yn eich parti.

Ar ddiwedd y nos, mae gennym gyfleuster storio i gadw eich addurniadau'n ddiogel. Bydd ein Swyddog Priodasau yn trefnu gyda chi pryd y gallwch eu casglu y diwrnod canlynol.





Syniadau
ar gyfer
addurno...





Prisiau a Blaendal

Llogi'r lleoliad

- Y blaendal yw £1,200 yn cynnwys TAW. Ni ad-delir y blaendal hwn ac fe'i tynnir o gyfanswm cost y llogi.
- Cost y lleoliad yw £234 yn cynnwys TAW ar gyfer pob awr y byddwch ei angen. Mae hyn yn cynnwys yr holl ystafelloedd yng Nghanolfan Anthony Hopkins a'r prif Goleg.
- Cost y staff drws yw £360 yn cynnwys TAW.
- Anfonebir am yr elfen arlwyo ar wahân.

Ffyrdd ychwanegol i wneud eich diwrnod yn un arbennig

- Wal ddisglair o oleuadau bach £280 + TAW (£56) = £336
- Goleuo gyda bylbiau bistro Festoon ar draws yr atriwm £240 + TAW (£48) = £288
- Goleuadau bach ar draws y bont wydr yn yr atriwm mewn dolenni sengl £80 + TAW (£16) = £96
- Goleuadau bach ar y teras awyr agored £50 + TAW (£10) = £60
- Lluniau wedi'u taflunio o £70 + TAW yn dibynnu ar y dewis:
- clychau priodas, calonnau a phlu eira i gynllun personol sy'n unigryw i chi
- Goleuadau lliw dan do (o'r llawr i fyny) £90 + TAW (£18) = £108
- Goleuadau lliw o'r llawr tu allan £60 + TAW (£12) = £72
- mae goleuo tu allan i'r adeilad yn lliw eich thema yn rhoi cyffyrddiad personol arall i'r lleoliad
- Pecyn technegol yr hwyr £220 + TAW (£44) = £264
- yn cynnwys goleuadau disgo gyda phêl ddrych, ein system PA ac un o'n technegwyr i weithio eich iPad
- Cyrraedd mewn car priodas y tu allan i Ganolfan Anthony Hopkins a Choedlan y Castell, a ffotograffau ym Mharc Bute £125 + TAW (£25) = £150




Gwasanaeth Llogi Perfformiwr

Mae Llogi Perfformiwr yn gynllun unigryw i'r Coleg sy'n gallu darparu ystod eang o gerddorion, yn amrywio o bedwarawdau i fandiau jazz, pianyddion i gantorion. Rydym yn un o naw o gonservatoires cerddoriaeth arbenigol yn y DU ac mae ein perfformwyr ymhlith y mwyaf dawnus yn y wlad. Bydd eu hangerdd a'u proffesiynoldeb yn gwneud eich priodas yn arbennig.

Os oes gennych ymholiadau, cysylltwch â:

musicians@rwcmd.ac.uk

029 2039 1402



**Ymholiadau
cyffredinol..**

Polisiau gyda COVID-19

Bydd y Coleg yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru, felly gallai cyfyngiadau newid drwy gydol 2021. Rhown wybod i chi am unrhyw newidiadau...

- Os yw'r adeilad yn agored ac yn gweithredu, ac y gall y Coleg gynnal eich priodas, yna ni ellir ad-dalu'r blaendal ar gyfer eich priodas.
- Os yw'r adeilad ar gau oherwydd COVID yna ad-delir eich blaendal. Yn dibynnu ar nifer y cyfarfodydd neu sesiynau blasu, efallai y codir ffi gweinyddu fechan.
- Gallwn ohirio dyddiad eich priodas heb ffi a heb ffws ac fe wnawn ein gorau bob amser i ddarparu ar eich cyfer. Gall eich dyddiad hefyd gael ei ohirio fwy nag unwaith os bydd angen.
- Byddwn yn eich cynorthwyo i gynllunio diwrnod diogel o ran COVID i chi a'ch gwesteion a byddwn yn darparu amgylchedd rhydd o COVID i bawb ohonoch. Efallai y bydd dal angen parhau gyda chanllawiau cadw pellter cymdeithasol a mesurau diogelwch eraill yn 2021.

Parcio a llety

- Mae gennym fannau parcio ar gyfer eich cyflenwyr, ffotograffwyr a chofrestryddion. Ar gyfer eich gwesteion, mae nifer o feysydd parcio gerllaw. Gan ein bod yn agos i ganol Caerdydd rydym yn agos iawn i gysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus a llety dros nos.
- Mae gennym ofodau parcio ar gyfer deiliaid bathodynnew glas ac mae ein lleoliadau yn gwbl addas i ddefnyddwyr cadair olwyn.
- Mae ein hystafelloedd newid yn ddelfrydol fel ystafelloedd newid, gofodau tawel ar gyfer babanod a phlant ac ar gyfer storio a chadw eich eiddo.


Oes yna unrhyw beth na allwn ei wneud?

Croesawn eich syniadau hwyliog a chreadigol. Fodd bynnag, mae yna ychydig o bethau na allwn ddarparu ar eu cyfer am resymau diogelwch.

1. Dim tanau agored – mae hyn oherwydd larwm tân hynod sensitif ac er diogelwch eich gwesteion a'n staff.
2. Dim heliwm - mae gennym rai nenfydau uchel iawn a phan fydd balwnau yn codi mae hi bron yn amhosibl eu cael i lawr!
3. Dim peiriannau swigod - er eu bod yn hwyl, byddai ein llawr marmor yn y cyntedd yn mynd yn llithrig iawn!

Angen amser i feddwl?

Gallwn gadw nifer o ddyddiadau'n rhydd i chi am bythefnos. Bydd ein Swyddog Priodasau yn cysylltu â chi wedi hynny fel y gallwch gadarnhau eich dyddiad os ydych yn dymuno parhau i ddefnyddio ein lleoliad.



**Diolch am 'ymweld'
â'r Coleg. Gobeithio
eich bod wedi
mwynhau eich taith
ddigidol!**

Os oes gennych unrhyw
gwestiynau, mae croeso i chi
gysylltu â Cerys, ein Swyddog
Priodasau –
weddings@rwcmd.ac.uk

